

Disgrifiad Swydd: Cymrawd Addysgu

Cyfadrn:	Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd
Adran/Pwnc:	Seicolog
Gradd a Chyflog:	Gradd 7 - £34,610 to £38,784 y flwyddyn ynghyd â buddion USS
Oriau gwaith:	21 awr yr wythnos (0.6 FTE)
Contract:	Cyfnod penodol tan ddiwedd mis Medi 2027
Lleoliad:	Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton

Prif Ddiben y Swydd:	Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddarparu'r safon addysgu a'r profiad myfyrwyr gorau. Mae'r rôl Cymrawd Addysgu hon sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr yn hollbwysig i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Bydd y Cymrawd Addysgu'n angerddol am addysg a gweithio gyda myfyrwyr a bydd yn ymrwymedig i wella ansawdd addysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Bydd yn cyfrannu at gyflwyno dysgu ac addysgu rhagorol mewn amrywiaeth o ffyrdd a lleoliadau, fel, ond heb fod yn gyfyngedig i, grwpiau tiwtorial bach, seminarau a gweithdai, dosbarthiadau ymarferol a chysiau maes a darlithoedd mawr. Gall hyn gynnwys datblygu ei ddeunydd addysgu ei hun neu ei ddiweddarau, gosod a marcio asesiadau a rhoi adborth amserol i fyfyrwyr. Yn ogystal, gall y Cymrawd Addysgu gyfrannu at recriwtio, gwaith allgymorth a gweithgareddau cymorth eraill i fyfyrwyr. Dylai'r Cymrawd Addysgu fod ar gael i gyflwyno addysgu ac addysg i fyfyrwyr yn ystod oriau amserlen addysgu craidd penodedig y Brifysgol; cefnogi ffurfiau anhraddodiadol o weithgarwch addysg, recriwtio ac allgymorth, ac efallai bydd angen gwneud rhywfaint o waith y tu allan i oriau gwaith gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae rôl y Cymrawd Addysgu yn canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu addysg o ansawdd uchel, recriwtio myfyrwyr a chynnig profiad rhagorol i fyfyrwyr. Felly, nid oes disgwyl na hawl i'r Cymrawd Addysgu ymgymryd ag ymchwil neu ysgolheictod gwreiddiol, ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ei rôl yn effeithiol.
Dyletswyddau Cyffredinol	Bydd dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys, fel y bo'n briodol, rai neu bob un o'r canlynol: 1. Cyflwyno addysgu o safon ar draws ystod eang o ddeunydd craidd a rhai eraill sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth 2. Datblygu eich deunyddiau dysgu ac addysgu eich hun o safon 3. Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno modiwlau a rhaglenni newydd a phresennol 4. Gosod a marcio gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau eraill yn ôl yr angen, gan roi adborth effeithiol i fyfyrwyr yn ysgrifenedig ac ar lafar 5. Gweithredu fel Tiwtor Personol 6. Cefnogi gweithgareddau sy'n gwella profiad cyffredinol myfyrwyr ac yn cyflawni canlyniadau llwyddiannus i fyfyrwyr, fel, ond heb fod yn gyfyngedig i, arolygon profiad myfyrwyr, canlyniadau gradd, cadw myfyrwyr a dilyniant 7. Cynorthwyo i ddatblygu sgiliau astudio myfyrwyr, gan nodi ac ymateb i dueddiadau carfan ac anghenion unigol 8. Goruchwyllo traethodau hir a/neu brosiectau israddedig ac ôl-raddedig a addysgir 9. Cymryd rhan weithredol mewn diwrnodau agored a mentrau eraill i recriwtio myfyrwyr 10. Cyfrannu at weithgareddau allgymorth y ddisgyblaeth 11. Unrhyw ddyletswyddau addysg a phrofiad myfyrwyr eraill y gellir gofyn yn rhesymol am eu gwneud
Meini Prawf y Fanyleb Person	
1. Gradd yn y maes pwnc perthnasol 2. Cymhwyster ôl-raddedig priodol, neu brofiad proffesiynol perthnasol cyfwerth 3. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig, neu ymrwymiad i gyflawni hyn (e.e. Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch);	

4. Tystiolaeth o gyflwyno addysgu rhagorol a phrofiad dysgu o safon i fyfyrwyr, gan gynnwys defnyddio Amgylcheddau Dysgu Rhithwir
5. Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig
6. Sgiliau rhyngpersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr, athrawon, academyddion, a busnesau a sefydliadau eraill
7. Y gallu i weithio'n annibynnol gan ddefnyddio'ch menter eich hun, a hefyd i weithio'n dda fel rhan o dîm
8. Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol, a gallu amlwg i fodloni terfynau amser heriol yn gyson

Meini Prawf Dymunol

9. Profiad o weithio mewn amgylchedd academiaidd

Iaith Gymraeg:

Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael [yma](#).

